



**ArtWorks**  
Cymru

## **Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru**

### **Gwybodaeth i Hyfforddeion**

Mae ArtWorks Cymru yn bartneriaeth o 29 o sefydliadau ledled Cymru sy'n ymwneud â'r celfyddydau cyfranogol. Daeth y bartneriaeth ynghyd er mwyn darparu rhaglenni datblygu i'r sector yn ôl y galw.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn

[www.artworks.cymru](http://www.artworks.cymru)

Un rhan o raglen ArtsWorks Cymru 2023 – 2024 yw cynnal peilot o Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru, sy'n ceisio helpu artistiaid cyfranogol llawrydd yng Nghymru i ddatblygu eu hymarfer. Bydd y Llwybr yn canolbwyntio ar ddeialog rhwng artistiaid-hyfforddwyr ac artistiaid-hyfforddeion, gan alluogi'r hyfforddeion i edrych ar eu hymarfer, eu dyheadau, eu hanghenion a'u potensial.

Rydyn ni'n awyddus i gael ceisiadau gan unigolion sydd wedi'u tangynrychioli / sydd wedi cael eu diystyru neu'u cau allan o'r gymuned gelfyddydol; byddwn ni'n croesawu'n benodol

geisiadau gan bobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig amrywiol.

Cymerodd chwech artist-hyfforddwr ran mewn encil hyfforddi lle datblygwyd y rhaglen hyfforddiant ar y cyd â Courtney Boddie o Theatr New Victory, Efrog Newydd. Bydd pob artist yn hyfforddi tri artist arall gan ddefnyddio'r rhaglen a ddatblygwyd, a hynny mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol ledled Cymru.

### **Grŵp y Prosiect Peilot**

Dyma artistiaid a sefydliadau nawdd grŵp 2023:

Bethan Page (Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth)

*Clare Potter (Llenyddiaeth Cymru)*

Jon Dafydd-Kidd (Glan yr Afon)

Martin Daws (Cerdd Gymunedol Cymru)

Pauline Down (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)

Rabab Ghazoul (Gentle Radical)

### **Y Llwybr**

Bydd sesiynau'r Llwybr Hyfforddi'n cynnwys y canlynol:

- Mentora gan artist-hyfforddwr
- Diffinio gwerthoedd craidd eich ymarfer cyfranogol
- Archwilio eich taith fel Artist Cyfranogol gan ddefnyddio Adnodd Llwybr Artistiaid Cymru
- Edrych ar y camau nesaf yn eich ymarfer

Byddwch chi'n cwrdd â'ch hyfforddwr hyd at bum gwaith.

### **Yr Amserlen**

Gorffennaf 2023 ymlaen – Y sesiynau hyfforddi i'w cynnal.  
Rhaid i bob sefydliad benderfynu ar y cyd-destun a fydd yn sail  
i waith yr hyfforddwyr.

## **Gwerthuso Peilot y Llwybr**

Bydd ArtWorks Cymru yn gwerthuso Peilot Llwybr Hyfforddi  
Artistiaid Cymru. Bydd gofyn i chi lenwi arolwg ar-lein ar  
ddiwedd y broses hyfforddi ac efallai y cewch chi'ch dewis i  
gymryd rhan mewn cyfweiliad lled-strwythuredig ar y diwedd.

## **Cysylltiadau**

Bydd y sefydliad sydd wedi'ch recriwtio fel hyfforddai yn rhoi  
prif enw cyswllt i chi ac yn eich cysylltu â'ch artist-hyfforddwr.

Cysylltwch os bydd angen i bobl gael y wybodaeth mewn  
fformat gwahanol (h.y. print mawr, sain).

Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ariannu ArtWorks Cymru.

